# Datganiad Manylion

## Cynllun Rheoli Basn Gorllewin Cymru

Tîm Asesu Amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhagfyr 2015

Ein diben yw sicrhau bod cyfoeth naturiol Cymru yn cael eu cadw, eu defnyddio a'u gwella yn gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

Byddwn yn gweithio ar gyfer cymunedau Cymru i warchod pobl a'u cartrefi gymaint â phosibl rhag digwyddiadau amgylcheddol fel llifogydd a llygredd. Byddwn yn rhoi cyfleoedd iddynt ddeall, defnyddio a manteisio ar gyfoeth naturiol Cymru.

Byddwn yn gweithio ar gyfer economi Cymru ac yn galluogi'r defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol i gefnogi swyddi a menter. Byddwn yn helpu busnesau a datblygwyr i ddeall ac i ystyried cyfyngiadau amgylcheddol pan maen nhw'n gwneud penderfyniadau pwysig.

Byddwn yn gweithio i gynnal a gwella ansawdd yr amgylchedd i bawb. Byddwn yn gweithio tuag at wneud yr amgylchedd a'r adnoddau naturiol yn fwy gwydn i newid hinsawdd a phwysau eraill.

# 1. Cyflwyniad

Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni (Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA)) yn nodi y dylai Datganiad o'r Manylion fod ar gael cyn gynted ag y mae'n ymarferol yn rhesymol wedi mabwysiadu'r cynllun. Mae'n rhaid i'r datganiad hwn ddangos y canlynol:

1. Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio i Gynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (RBMP) (**Adran 2** y ddogfen hon);
2. Sut mae'r Adroddiad Amgylcheddol wedi cael ei ystyried (**Adran 3**);
3. Sut mae barn a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol wedi'i ystyried (**Adran 4**);
4. Y rhesymau dros ddewis RBMP Gorllewin Cymru, fel y'i mabwysiadwyd, yng ngoleuni'r opsiynau amgen eraill y rhoddwyd sylw iddynt; a
5. Y mesurau sy'n cael eu cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol arwyddocaol ar weithredu'r RBMP (**Adran 6**).

### Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd

Cynhyrchwyd RBMP Gorllewin Cymru gan Gyfoeth Naturiol Cymru.  Bu i ni weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer y rhannau o Ardal Basn yr Afon (RBD) sy'n syrthio yn Lloegr. Mae'r cynlluniau'n ofynnol gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) (2000/60/EC).

Mae'r cynlluniau'n disgrifio'r pwysau mae'r amgylchedd dŵr yn eu hwynebu ac amcanion penodedig ar gyfer afonydd, llynnoedd, aberoedd, dŵr arfordirol a dŵr daear am y cyfnod o 2015-2021. Maen nhw'n amlinellu'r camau gweithredu â blaenoriaeth ('Mesurau') sydd eu hangen i wella'r amgylchedd, y manteision a geir o'r camau gweithredu hynny a phwy yw'r gorau i'w cyflawni.  Mae'r mesur yn ceisio rhoi sylw i'r materion rheoli dŵr arwyddocaol.

Mae cynlluniau 2015 yn fersiynau wedi'u diweddaru o gynlluniau'r gylchred gyntaf a gyhoeddwyd yn 2009 fel sydd yn ofynnol gan ddeddfwriaeth WFD, sef eu bod yn cael eu hadolygu bob chwe blynedd. Ymgynghorwyd ar y Cynllun ail gylchred a'r Adroddiad Amgylcheddol sy'n nodi'r SEA rhwng Hydref 2014 ac Ebrill 2015.

## *2.* Sut mae ystyriaethau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio i Gynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (RBMP)?

Pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau bod cyfoeth naturiol Cymru yn cael eu cadw'n gynaliadwy, yn cael eu gwella a'u defnyddio, nawr ac yn y dyfodol. Bwriad yr RMBP yw gwella'r amgylchedd dŵr sydd ynddo'i hun yn fuddiol, fodd bynnag, o wneud hynny mae posibilrwydd o effeithiau amgylcheddol ehangach.

Roedd yr RBMP drafft yn cynnig mesurau a fyddai'n ofynnol i gael yr holl gyrff dŵr i statws neu botensial ecolegol da erbyn 2021, waeth beth fo'r gost. Mae'r broses ymgynghori wedi helpu i flaenoriaethu'r cyrff dŵr a'r mesurau ac mae'r RBMP terfynol yn nodi'r rheiny y gellir eu cyflawni o fewn ail gylchred RBMP (2015-2021).

Cafodd y cyrff dŵr a'r mesurau eu blaenoriaethu gan ystyried y canlynol:

- Ein rhwymedigaeth statudol i atal dirywiad,
- Ein rhwymedigaeth statudol i gyflawni amcanion Ardal Warchodedig,
- Adnoddau sydd ar gael,
- Barn rhanddeiliaid,
- Ymrwymiad gan bartneriaid,
- Ein tystiolaeth o'r broblem amgylcheddol a'r datrysiadau angenrheidiol.

Er enghraifft, mae'r cynllun yn cynnig mesurau lleol a strategol a fydd yn helpu'r Safleoedd Ewropeaidd wedi'u Dynodi (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Safleoedd Ramsar) gyda chynefinoedd a rhywogaethau sy'n

ddibynnol ar ddŵr i fodloni'r amcanion cadwraeth; a'r bwriad cyffredinol o dderbyn statws cadwraeth ffafriol ar gyfer pob safle.

Cafwyd cymorth yn y broses o gael rhestr o gyrff dŵr a mesurau â blaenoriaeth yn yr RBD gan weithdy cynllunio integredig. Daeth arbenigwyr technegol perthnasol Cyfoeth Naturiol Cymru gyda gwybodaeth am y dalgylch ynghyd yn y gweithdy, gan gynnwys cynrychiolwyr o:

- Dîm Rheoli Cyfoeth Naturiol (Gan gynnwys arweinydd WFD, Arweinydd Cadwraeth, Arweinydd Amaethyddiaeth, Arweinydd Safleoedd Gwarchodaeth)
- Tîm Dadansoddi ac Adrodd (Gan gynnwys Arweinwyr Ansawdd Dŵr a/neu Fiolegwyr)
- Pysgodfeydd (technegol)
- Rheoli Perygl Llifogydd
- Tîm Gwyddor Daear
- Tîm Hydroleg ac Adnoddau Dŵr
- Coedwigaeth
- Cynrychiolwyr Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio (Tîm WFD)
- Tîm Cynllun Cyfoeth Naturiol (Cydlynydd WFD)

Bwriad y gweithdy oedd ystyried y canlynol:

1. Beth yw'r prif bwysau yn y dalgylch?
2. Darparu crynodeb o fesurau (ac ymchwiliadau) a chanlyniadau a gyflwynwyd yn y gylchred gyntaf.
3. Pa fesurau (ac ymchwiliadau) fyddwn ni'n eu targedu yn yr ail gylchred? Ble?
4. Pwy ydym ni angen eu cynnwys?
5. Pryd fyddwn ni'n rhoi mesurau ar waith?
6. Pa ganlyniadau fyddwn ni'n eu cyflawni?
7. Beth yw'r prif gyfle sydd yn anfforddiadwy?
8. Beth yw'r prif rwystr i gyflawni yn nhermau mecanweithiau?

Caniataodd y broses hon i ni flaenoriaethu'r cyrff dŵr a'r mesurau i'w cyflwyno yn yr ail gylchred o RBMP ynghyd ag ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad. Drwy gynnal y gweithdai cynllunio integredig hyn, sicrhawyd bod pob agwedd o Reolaeth Cyfoeth Naturiol yn cael eu hystyried yn y broses, ac felly'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd a lleihau effeithiau negyddol posibl (uniongyrchol, anuniongyrchol, cronnus).

Mae effeithiau manwl gweithredu'r mesurau ar lefel prosiect yn ansicr. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) o'n prosiectau lle fo'n briodol ac angenrheidiol o dan Cyfoeth Naturiol Cymru neu bolisi hen gorff. Mae hyn yn golygu ein bod yn lleihau effaith amgylcheddol ac yn gwneud y mwyaf o gynnig buddiannau amgylcheddol.

Mae RBMP Gorllewin Cymru wedi'i ddatblygu i'r un amserlenni a maes astudiaeth â'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru (FRMP). Mae'r Gyfarwyddeb Llifogydd yn nodi bod y FRMP a'r RBMP yn elfennau o reoli basnau afonydd integredig ac *"y dylai'r ddwy broses felly ddefnyddio posibilrwydd y naill a'r llall am synergeddau a manteision cyffredin, gan roi sylw i amcanion amgylcheddol Cyfarwyddeb 2000/60/EC (Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr), gan sicrhau effeithlonrwydd a defnyddio adnoddau'n ddoeth".*

Mae cyfuno rhaglenni cynllunio basnau afonydd a chynllunio rheoli perygl a meysydd astudio wedi caniatáu i ni ystyried sut mae'r cynlluniau'n rhyngweithio a sut y gall Cyfoeth Naturiol Cymru weithio i gyflwyno manteision lluosog yn y ffordd fwyaf effeithiol, trwy gydol y gylchred chwe blynedd. Er mwyn helpu gydag integreiddio RMBP a FRMP Gorllewin Cymru, mae'r ddau gynllun yn gosod nifer o Fesurau Cenedlaethol. Bydd y rhain yn hyrwyddo cyflwyno mesurau angenrheidiol i wella'r amgylchedd dŵr wrth ymgymryd â gweithgareddau rheoli perygl llifogydd.

Mae hefyd yn bwysig i gydnabod sut gallai mesurau RBMP fod o fudd i Reoli Perygl Llifogydd a gweithio gyda'i gilydd i wneud y mwyaf o hyn. Er enghraifft, bydd mesurau i leihau llwybrau llygredd gwasgaredig (h.y. rheoli mynediad i amgylchedd dŵr) drwy lifo oddi ar wyneb a rheoli draeniad, yn cynnig manteision amlwg i reoli perygl o lifogydd. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys gwell cyflwr yr ardal dorlannol a/neu gynefinoedd gwlyptir drwy wella cynefinoedd a ffensio, neu ddatblygu a defnyddio strategaethau rheoli gwaddod neu waith atal llygredd amaethyddol.

## 3. Sut mae'r Adroddiad Amgylcheddol wedi cael ei ystyried?

Mae'n bwysig i unrhyw gynllun ystyried yr amgylchiadau amgylcheddol lle bydd yn cael ei weithredu. Mae hyn er mwyn sicrhau y bydd effeithiau negyddol anfwriadol yn cael eu hosgoi, yn ogystal â nodi'r posibilrwydd o gyflwyno manteision lluosog.

Roedd yr Adroddiad Amgylcheddol a oedd ar gael ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â'r cynllun drafft yn dogfennu effeithiau negyddol a chadarnhaol posibl mesurau cynllun arfaethedig a nodi lliniariad a chyfleoedd ar gyfer cyflwyno manteision lluosog trwy gyflwyno prosiectau a mesurau.

Caiff crynodeb o effeithiau sylweddol tebygol y cynllun ar yr amgylchedd ehangach a'r lliniariad a gynigiwyd yn yr Adroddiad Amgylcheddol eu crynhoi yn Nhabl 3.1.

**Tabl 3.1**

| Gwasanaeth Ecosystem | Effaith y Cynllun | Disgrifiad o'r effaith | Lliniariad ar gyfer effeithiau negyddol |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Darparu | | | |
| Ffibr a thanwydd (e.e. coed a gwlân) | **Effaith cadarnhaol bach** | Byddai plannu stribedi byffro o amgylch coedwigoedd fel rhan o gynlluniau adfer asideiddio yn gallu lleihau ardaloedd o goed ar gael yn y cyrff dŵr, ac felly'n lleihau cynhyrchu coed. Ond, byddai gweithredu Rheoli Coedwigoedd Cynaliadwy yn gweld plannu coed a choetir. Byddai'r gwella cynhyrchiant tir a ffrwythlondeb yn darparu effaith gadarnhaol, tymor hir ar gynhyrchu coed yn yr RBD. | |
| Dŵr nad yw ar gyfer ei yfed (e.e. ynni dŵr, mordwyaeth) | **Effaith negyddol bach** | Cyfyngu faint o ddŵr sydd ar gael i'w echdynnu ar amserau penodol. | Dewis safle'n ofalus, gan reoli gwaith er mwyn osgoi effeithiau lleol a chynnal ymgynghoriad priodol gyda'r sawl sydd wedi'u heffeithio. |

| Gwasanaethau Rheoleiddio | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoleiddio Hinsawdd | **Effaith cadarnhaol bach** | Byddai blocio ffosydd i greu gwlyptiroedd, a phlannu stribedi byffro o amgylch coedwigoedd ac ar hyd coridorau glannau afon yn cynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn yr RBD a'r gwasanaethau rheoleiddio hinsawdd a ddarperir gan y dalgylch.<br><br>Bydd creu cynefin a gofod gwyrdd mewn ardaloedd trefol yn darparu storfa garbon fechan ond bydd hefyd yn gallu rheoleiddio hinsawdd ac oeri lleol. | |
| Rheoleiddio Dŵr (e.e. llifogydd) | **Effaith cadarnhaol bach** | Bydd blocio ffosydd a chreu gwlyptiroedd yn cynnig mannau i storio dŵr yn y rhannau uchaf o'r RBD, gan arafu cyfraddau llifo a chludiant i lawr yr afon ac felly'r perygl o lifogydd; a bydd gorchudd mwy o lystyfiant a choed, a phlannu torlannol yn lleihau cyfradd llifo wyneb y dŵr a hefyd yn sefydlogi glannau rhag erydu. Bydd y ddau beth hyn yn lleihau'r perygl o lifogydd ac yn gwella gwasanaethau rheoleiddio dŵr a ddarperir gan RBD. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rheoleiddio Pridd ac Erydiad | **Effaith cadarnhaol bach** | Byddai rhoi mesurau amaethyddol ar waith, gan gynnwys ffensio glannau afonydd i stopio herwhela, yn lleihau erydu yn y tymor byr/canolig.<br><br>Mae creu gwlyptiroedd, gorchudd mwy o lystyfiant a choed, stribedi byffro coedwigoedd a rheoli ardal dorlannol a phlannu ynddo, i gyd yn gysylltiedig ag arferion rheoli coedwigaeth ac amaethyddol cynaliadwy, a byddai'r rhain yn lleihau erydiad pridd oherwydd bod mwy o sefydlogrwydd pridd a llai o bridd yn cael ei amlygu i brosesau erydol. | |
| Puro Dŵr a Thrin Gwastraff | **Effaith cadarnhaol bach** | Bydd mesurau i leihau asideiddio ac i weithredu arferion amaethyddol a choedwigaeth gynaliadwy, trwy greu gwlyptiroedd, plannu coedwigoedd a stribedi byffro coedwigoedd, yn ogystal â rheoli maetholion ac ardaloedd torlannol, yn effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd y dŵr a gallu'r ecosystem i buro dŵr. Bydd hyn yn digwydd drwy leihau llygryddion a deunydd atal dros dro eraill yn y cyrsiau dŵr a chynnig mwy o orchudd i lystyfiant a llai o ddŵr â llawer o faetholion ynddo i lifo mewn i gyrff dŵr.<br><br>Mae mesurau i leihau llygryddion mewn dŵr o fwyngloddiau metel a phyllau glo segur, yn ogystal ag o weithiau trin dŵr trwy drin dŵr yn uniongyrchol, prosiectau adfer a gwelliannau isadeiledd. | |
| Gwasanaethau Diwylliannol | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | **Effaith negyddol** | Gall mesurau i darfu ar archeoleg wedi'i gladdu neu sydd yn anhysbys, a allai fod wedi cael ei gadw mewn | Trwy'r broses EIA, bydd prosiectau unigol, ar y cam cynharaf yn nodi unrhyw |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **mawr** | mawn neu gloddiad a chael gwared ar goredau neu rwystrau a allai niweidio asedau treftadaeth. | asedau treftadaeth ddynodedig neu heb eu dynodi, gan gynnwys y perygl o archeoleg claddedig anhysbys. Bydd hyn yn pennu'r posibilrwydd o effeithiau andwyol yn ogystal â chyfleoedd i wella; bod yn sail i ddewisiadau prosiect a dylunio manwl; ac adnabod strategaeth lliniaru briodol. |
| Hamdden a Thwristiaeth (gan gynnwys mannau glas a gwyrdd hygyrch) | **Effaith cadarnhaol bach** | Cynefinoedd gwell ar gyfer pysgod, trwy gael gwared ar rwystrau i lwybr pysgod a gwella cynefinoedd torlannol ac amrywiaeth glannau afon ac yn y sianel, gan ddod â mwy o fuddiannau pysgota hamdden i'r RBD;<br><br>Byddai plannu torlannol, a newid defnydd tir o goedwigaeth gynaliadwy a rheolaeth amaethyddol yn creu cynefinoedd i'w mwynhau gan ymwelwyr ac fel adnoddau hamdden, ac yn cyfrannu at rwydwaith mwy dymunol o gyrff dŵr i ymgymryd â gweithgareddau hamdden; a<br><br>Bydd gostyngiad mewn llygredd o gyrff dŵr o wella isadeiledd carthffosiaeth yn gwella'r amgylchedd dŵr ar gyfer defnydd hamdden a thwristiaeth. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwerth estheteg (e.e. tirwedd, morlun, llonyddwch) | **Effaith cadarnhaol bach** | Newid defnydd tir, trwy greu gwlyptiroedd a phlannu stribedi byffro a rheoli ardaloedd torlannol. Bydd gwelliannau i isadeiledd buarth, hefyd yn arwain at leihad mewn llygredd gweladwy o gyrsiau dŵr; a chynefino sianeli afonydd a glannau aber trwy gael gwared ar lannau caled, plannu torlannol a thirlunio.<br><br>Mae effeithiau negyddol posibl o fewn yr RBD yn cynnwys: Newidiadau i gymeriad tirwedd gwerthfawr trwy adfer mwyngloddiau metel hanesyddol; a gweithgareddau adeiladu ac isadeiledd gwasanaethau mewn gweithfeydd trin carthion ac i wella Gorlif Carthffosydd Cyfun (CSO). | Bydd effeithiau negyddol posibl yn cael eu lliniaru drwy'r broses EIA. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cynnar gyda'r rhai sydd o ddiddordeb o ran tirwedd berthnasol a, lle bo angen, byddwn yn cynnal asesiadau tirwedd ac effaith gweledol i fod yn sail i ddylunio a lliniaru cynllun. |
| Gwasanaethau Cefnogol | | | |
| Darparu Cynefin | **Effaith cadarnhaol bach** | Bydd arferion rheoli amaethyddol a choedwigaeth gynaliadwy, gan gynnwys creu gwlyptiroedd, newid defnydd tir a phlannu torlannol yn gwella cynefinoedd a gallu'r ecosystem i ddarparu cynefin ar draws y RBD.<br><br>Byddai cael gwared ar rwystrau i lwybr pysgod a chynefino sianelau a morliniau trefol yn creu cynefin newydd ar gyfer pysgod yn ogystal â chynyddu'r cynefinoedd ar lan yr afon ar gyfer rhywogaethau fel dyfrgwn a llygod y dŵr. | |

Cyfunwyd y broses o gynnal SEA ar gyfer yr RBMP a'r FRMP, ac roedd hyn yn hyrwyddo cynllunio integredig ac yn golygu bod yr SEA yn gallu dylanwadu ar y cynllun.

O ganlyniad i asesiad a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru o'n gweithrediadau a'n cynlluniau ar y raddfa briodol, ac oherwydd i ni roi'r mesurau cenedlaethol a nodwyd uchod ar waith; mae'r RBMP wedi rhoi digon o sylw i ystyriaethau amgylcheddol. Bydd effeithiau negyddol yn cael eu lleihau a chyflwyno manteision lluosog yn cael eu hyrwyddo.

## 4. Sut mae barn a fynegwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol wedi'i ystyried.

Cynhaliwyd ymgynghori ffurfiol ar y cam rhychwantu gan gyhoeddi'r adroddiad rhychwantu i fod yn sail i rychwant yr SEA. Hefyd, trafodwyd gyda Thîm Asesu Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw, Natural England a English Heritage fel Ymgynghorwyr Statudol yn y broses SEA, trwy gydol datblygiad y cynllun.

Mae crynodeb manwl o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad ar yr Adroddiad Amgylcheddol yn Atodiad 1. Mae hwn yn nodi pob ymateb a dderbyniwyd, yn crynhoi'r sylwadau a wnaed ac yn nodi'r camau gweithredu yr ydym wedi'u cymryd neu yn eu cymryd i roi sylw i'r sylwadau. Mae crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd i'r cwestiynau SEA penodol a ofynnwyd, a'r camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd wedi'u nodi isod.

Yn gyffredinol, roedd y sawl a ymatebodd yn ystyried bod asesiad digonol wedi'i gynnal ar y cynllun ac roedd cydnabyddiaeth o'r manteision amgylcheddol eang sydd yn dod law yn llaw â'r cynllun. Fodd bynnag, roedd rhai o'r sawl a ymatebodd yn gofyn am fanylion pellach am sut y cynhaliwyd yr SEA, gan gynnwys defnyddio'r Dull Gweithredu sy'n seiliedig ar Wasanaethau Ecosystemau. Yn yr Adroddiad Amgylcheddol darparwyd trosolwg o'r SEA a gynhaliwyd ond roedd yn cael ei danategu gan waith pellach fel adolygiad o'r polisïau a'r cynlluniau perthnasol, y gwerthusiad manwl a wnaed gan ddefnyddio Tablau Crynodeb Gwerthuso ac ystyriaeth fanwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad rhychwantu. Ni chyhoeddwyd y rhain fel atodiadau mewn ymdrech i gadw dogfennau'n gryno, ond gellir eu darparu ar gais.

Roedd rhai o'r sawl a ymatebodd yn pryderu nad oedd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) wedi'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r cynllun drafft a chael ei ystyried yn yr SEA. Rydym yn cytuno y dylai'r HRA gael ei gynnal ochr yn ochr â pharatoi'r cynllun. Fodd bynnag,

cynhaliwyd yr HRA ochr yn ochr â blaenoriaethu'r mesurau a pharatoi'r cynllun terfynol, a bu iddo ddylanwadu ar y rhain, ac roedd mewn lle cyn gwneud y cynllun yn derfynol a'i gymeradwyo. Ymgynghorwyd â Thîm Asesu Strategol Cyfoeth Naturiol Cymru ar y drafft o'r HRA a'r HRA terfynol, cyn gwneud y cynllun yn derfynol a'i gymeradwyo.

Cydnabu llawer o'r sawl a ymatebodd natur amrywiol yr amgylchedd yng Nghymru a'r angen i wybodaeth leol gan berchnogion tir, genweirwyr, defnyddwyr hamdden, preswylwyr a diwydiant gael ei ystyried yn ogystal â phwysigrwydd ystyried safleoedd lleol ar raddfa strategol. Mae'r drafft o'r RBMP a'r Adroddiad Amgylcheddol sy'n cyd-fynd yn ddogfennau lefel uchel ond fe'u cefnogir gan lawer iawn o wybodaeth fanwl, ystyriaethau a gwybodaeth. Bydd gwybodaeth a safleoedd lleol yn bwysig iawn wrth gyflwyno'r mesurau a, fel y dywedwyd gan un ymatebwr, “mae pawb yn gyfrifol am sicrhau llwyddiant y cynllun”.

Roedd effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd hanesyddol yn achosi pryder i rai ymatebwyr ond yn gyffredinol teimlwyd bod yr effeithiau posibl wedi cael gormod o sylw. Teimlwyd ei bod yn bwysig tynnu sylw at y materion hyn fel effeithiau negyddol posibl ond cytunwyd bod camau gweithredu ar lefel prosiect y gellir eu defnyddio, ac y bydd yn cael eu defnyddio i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol posibl. Byddem yn cynnal unrhyw asesiadau amgylcheddol o unrhyw brosiectau o'r fath yn unol â'n polisïau ein hunain yn ogystal â pholisïau Cynllun Datblygu Lleol i atal, lleihau neu liniaru effeithiau negyddol.

Teimlodd rhai o'r ymatebwyr nad oeddem wedi rhoi digon o sylw i'r manteision hamdden a thwristiaeth sylweddol o gyflwyno'r cynllun a fydd o fudd i bysgodfeydd. Dylai'r monitro yr ydym yn ei gynnig yn Adran 6 isod gasglu gwir effeithiau i dwristiaeth a hamdden a ddaw o'r gwelliannau i'r pysgodfeydd.

Roedd awgrymiadau y dylai'r cynllun geisio cyflawni mwy fel creu cynefinoedd a phlannu coed. Gall cynnydd yn y targed o blannu coed ledled tirweddau cefn gwlad a thirweddau trefol gyfrannu'n sylweddol at gael yr amodau cywir i gefnogi poblogaethau iach o beillyddion a byddai o fudd sylweddol mewn perthynas â chysylltedd cynefinoedd coed a choetir. Byddai hyn o fudd i fioamrywiaeth, hamdden, tirwedd a thwristiaeth.

Hefyd, amlygodd ymatebwyr gyfleoedd am welliannau hamdden fel ystyried gwella neu gynyddu hawliau tramwy cyhoeddus trwy gyflwyno prosiectau isadeiledd o ganlyniad i’r cynllun.

## 5. Y rhesymau dros ddewis RBMP Gorllewin Cymru, fel y’i mabwysiadwyd, yng ngoleuni'r opsiynau amgen eraill y rhoddwyd sylw iddynt.

Datblygodd Cyfoeth Naturiol Cymru bum ymagwedd (senario) gwahanol a gynigwyd yn y drafft o’r RBMP ac a aseswyd yn yr Adroddiad Amgylcheddol:

1. **Mesurau cyfredol (Llinell sylfaen 2015):** Mae’r opsiwn hwn yn adlewyrchu effeithiau mesurau parhau (o’r cynllun cyfredol) a thueddiadau (twf mewn poblogaeth a newid hinsawdd) a fydd yn newid y llinell sylfaen amgylcheddol (statws 2015) y tu hwnt i 2015. O ystyried graddfa’r camau gweithredu cyfredol i reoli ansawdd yr amgylchedd dŵr nid oes unrhyw wirionedd i’r opsiwn ‘gwneud dim’.
2. **Dyhead hir dymor. Anelu at gael dim dirywiad, cyflawni amcanion Ardaloedd Gwarchodedig a statws cyffredinol da yn yr holl gyrff dŵr,** oni bai am y rheiny lle mae amcanion eraill yn briodol, e.e. oherwydd amodau naturiol, cost anghymesur neu nad yw’n dechnegol ymarferol. (Hon yw Senario A yn yr RBMP).
3. **Amcanion Statudol. Anelu at gael dim dirywiad ac amcanion Ardaloedd Gwarchodedig.** Hwn yw’r targed ar gyfer yr holl gyrff dŵr sy’n gysylltiedig â Safleoedd Ewropeaidd Dynodedig i gyflawni statws da ar y cyfan. (Hon yw Senario B yn yr RBMP).
4. **Cyfleoedd Tymor Byr. Targedu gwelliannau i statws da yn gyffredinol erbyn 2021 lle mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru lefel resymol o dystiolaeth fod modd cyflawni canlyniad tymor byr.** (Hon yw Senario C yn yr RBMP).
5. **Canlyniadau Posibl.** Targedu gwelliannau i statws da ar y cyfan erbyn 2021 mewn cyrff dŵr lle mae mwy o sicrwydd o arian a chyflwyno trwy fecanweithiau sy’n bodoli’n barod (e.e. cwmni dŵr, yr Awdurdod Glo a rhaglenni coedwigaeth Cyfoeth Naturiol Cymru). (Hon yw Senario D yn yr RBMP).

Yn y drafft o’r RBMP nid oedd unrhyw un o’r opsiynau eraill yn ystyried pa mor fforddiadwy oedd y mesurau (yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru) neu pa mor effeithiol oedd y mecanweithiau i gyflwyno’r mesurau. Mae opsiwn amgen 2 a 3 yn disgrifio'r hyn sydd angen digwydd i gyflawni amcanion statudol, tra bod 4 a 5 yn disgrifio’r cyfleoedd i gyflawni gwelliannau tymor byr (2021) i statws da.

Yr opsiwn mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi mynd ymlaen ag o yw cyfuniad o Opsiynau 3 a 4. Mae’r cynllun arfaethedig o fesurau strategol a lleol yn seiliedig ar ddealltwriaeth gyfredol Cyfoeth Naturiol Cymru o amcanion statudol i atal dirywiad a chyflawni amcanion Ardaloedd Gwarchodedig (Opsiwn 3), tystiolaeth o’r mater a’r datrysiad angenrheidiol i gyflawni amcan amgylcheddol erbyn 2021 (Opsiwn 4), a gwybodaeth ac adnoddau ac ariannu Cyfoeth Naturiol Cymru sydd ar gael. Mae’r rhaglen yn seiliedig ar farn rhanddeiliaid a fynegwyd ym Mhaneli Cydgysylltwyr a thrwy’r ymgynghoriad. Nid oedd Opsiwn 1 yn cael ei ffafrio oherwydd yr angen i Cyfoeth Naturiol Cymru integreiddio ac ail-flaenoriaethu ei weithgareddau; ystyriwyd opsiwn 2 yn anfforddiadwy ac yn afrealistig; tra bod llawer iawn o ansicrwydd ynghylch opsiwn 5 oherwydd gwybodaeth oedd ar gael ar raglenni partner ac arian Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 6. Y mesurau sy’n cael eu cymryd i fonitro effeithiau amgylcheddol arwyddocaol ar weithredu’r RBMP

Mae’r adran hon yn nodi’r camau monitro yr ydym yn eu cynnig i ddeall effeithiau sylweddol y cynllun ar waith. Mae’r monitro’n canolbwyntio ar y gwasanaethau hynny lle mae posibilrwydd am effeithiau sylweddol (Gweler Tabl 3.1). Mae’n rhaid i’r dangosyddion hyn fod yn ymarferol, yn gost-effeithiol ac yn strategol, ac mae’n rhaid iddynt nodi effeithiau’r cynllun ei hun, yn hytrach nag ar dueddiadau ehangach. Bydd effeithiau prosiectau unigol yn cael eu monitro yn unol â’r gweithredoedd amgylcheddol a/neu gynlluniau monitro a ddyfeisiwyd yn ystod yr asesiad effaith amgylcheddol ar lefel prosiect.

**Tabl 6.1 Ffynonellau gwybodaeth arfaethedig i fonitro effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd.**

| Gwasanaeth Ecosystem | Effaith y Cynllun | Dangosydd Monitro Arfaethedig | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Darparu | | | |
| Ffibr a thanwydd (e.e. coed a gwlân) | **Effaith cadarnhaol bach** | Faint o goed o Stad Coetir Llywodraeth Cymru sy'n cyrraedd y farchnad.<br>Arfer rheolaeth gynaliadwy o Stad Coetir Llywodraeth Cymru. | Adrodd blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru.<br>Cadw ardystiad Safon Sicr Coetiroedd y DU |
| Dŵr nad yw ar gyfer ei yfed (e.e. ynni dŵr, mordwyaeth) | **Effaith negyddol bach** | System trwyddedu echdyniad | Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd am argaeledd adnoddau dŵr. |
| Gwasanaethau Rheoleiddio | | | |
| Rheoleiddio Hinsawdd | **Effaith cadarnhaol bach** | Cynnydd yn erbyn Cod Carbon Coetiroedd (safon wirfoddol ar gyfer prosiectau creu coetir yn y DU lle mae honiadau'n cael eu gwneud am y carbon deuocsid maen nhw'n ei atafaelu.) | Adrodd blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru yn erbyn targedau i hwyluso creu coetiroedd a rheolaeth well o garbon mewn coetiroedd sy'n bodloni'n barod. |
| Rheoleiddio Dŵr (e.e. llifogydd) | **Effaith cadarnhaol bach** | Y nifer o bobl ac eiddo mewn perygl o lifogydd. | Setiau data modelu a monitro Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| Rheoleiddio Pridd ac Erydiad | **Effaith cadarnhaol bach** | Hydromorffoleg cyrff dŵr.<br>Rhywfaint o naturioldeb i gefnogi cyflawni statws ecolegol Da neu'r posibilrwydd o hynny. | Statws ecolegol cyrff dŵr – adroddir trwy'r RBMP. |
| Puro Dŵr a Thrin Gwastraff | **Effaith cadarnhaol bach** | Ansawdd Dŵr Biolegol a Chemegol | Statws ecolegol cyrff dŵr – adroddir trwy'r RBMP. |
| Gwasanaethau Diwylliannol | | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol | **Effaith negyddol mawr** | Statws nodweddion hanesyddol rhestredig a'r rhai nad ydynt yn rhestredig. | Bydd EIA ar lefel prosiect yn canfod effeithiau posibl ar nodweddion hanesyddol a'r rhai nad ydynt yn hanesyddol a bydd yn dylanwadu ar ddyluniadau i osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau. |

| Gwasanaeth Ecosystem | Effaith y Cynllun | Dangosydd Monitro Arfaethedig | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|
| | | | Mae Cadw yn cynnal rhaglen fonitro a rheoli ar gyfer nodweddion sy'n eiddo i'r wladwriaeth. |
| | | Monitro nodweddion archeolegol sydd wedi'u claddu nad ydynt yn hysbys neu feysydd â photensial archeolegol ar lefel prosiect unigol. | Cysylltu'n agos gydag Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru yn ystod gwerthuso a dylunio'r prosiect. Darparu copïau o adroddiadau (e.e. Astudiaethau wrth ddesg, Adroddiadau ymchwiliol, Adroddiadau Gwylio Cryno ac ati) i Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru yn dilyn cyflwyno'r prosiect. |
| Hamdden a Thwristiaeth (gan gynnwys gofod glas a gwyrdd hygyrch) | **Effaith cadarnhaol bach** | Nifer o ymwelwyr.<br>Defnydd hamdden gan gymunedau ac ymwelwyr o gyrff dŵr a'r dalgylchoedd cyfagos.<br>Gwerthu trwyddedau genweirio. | Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd ar werthu trwyddedau Genweirio.<br>Arolwg ymwelwyr Cymru, arolwg busnes twristiaeth Cymru.<br>Nifer y defnyddwyr ar gyfer llwybrau arfordirol ac ymwelwyr i Warchodfeydd Natur Cenedlaethol (cownteri ymwelwyr mewn lleoliadau penodol)<br>Nifer ymwelwyr i Barciau Cenedlaethol.<br>Cyfleoedd i brosiectau gwella mynediad i'r cyhoedd, dehongliadau a rhwydweithiau llwybr cerdded a seiclo, a bydd tir hamdden ac amwynder yn cael eu cofnodi yn y canlyniadau amgylcheddol. |
| Gwerth Esthetig (e.e. tirwedd, morlun, llonyddwch) | **Effaith cadarnhaol bach** | Mae posibilrwydd o effeithiau lleol yn dibynnu ar leoliad, math a dyluniad y prosiectau | Trwy gydol y broses EIA byddwn yn cynnal ymgynghoriad cynnar gyda'r rhai sydd o ddiddordeb o ran tirwedd, lle bo'n angenrheidiol ac asesiadau effaith gweledol i fod yn sail i ddyluniad a lliniariad y prosiect. |
| Gwasanaethau Cefnogi | | | |
| Darpariaeth Cynefinoedd | **Effaith cadarnhaol bach** | Statws cadwraeth ffafriol Safleoedd Ewropeaidd | Cyfoeth Naturiol Cymru yn monitro statws cadwraeth Safleoedd Ewropeaidd. Dangosydd perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru |

Bydd nifer o raglenni monitro sy'n bodoli'n barod yn cael eu hadolygu yn barhaol drwy adrodd statudol. Fodd bynnag, bydd y monitro a argymhellwyd i arddangos effeithiau gweithredu'r RBMP yn cael ei adolygu yn y rhychwantu sylfaenol ar gyfer SEA y drydedd gylchred o Gynlluniau i'w cyhoeddi yn 2021.

# Atodiad 1: Crynodeb o Ymatebion i'r Ymgynghoriad a'r Camau a Gymerwyd

| Sefydliad sy'n ymateb | Ymateb i'r SEA | Camau a Gymerwyd |
|---|---|---|
| Pŵer Lagŵn Llanw | Nid yw'n ymddangos fod yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) wedi ystyried y posibilrwydd o brosiectau lagwnau llanw cenedlaethol arwyddocaol gael eu rhoi ymlaen o fewn cyfnod cynllun yr RBMP nesaf.<br><br>Nodir nad yw'r adolygiad o'r cynlluniau, polisïau a rhaglenni (fel rhan o'r SEA) wedi canfod cynnydd ar roi'r lagwnau llanw ar waith. | Ni chymerwyd unrhyw gamau. Ystyriodd yr SEA bolisïau a chynlluniau oedd wedi'u cyhoeddi ar raddfa Genedlaethol, yn gyfatebol i raddfa'r cynllun ei hun. |
| Partneriaeth Iechyd Dŵr | Gofynnwn am greu 'ardaloedd diogelu' pellach er mwyn sicrhau bod cyrff dŵr yn cael eu diogelu fel bo'r angen, er mwyn lleihau'r lefel o drin dŵr/puro dŵr sydd ei angen yn y dyfodol.<br><br>Ydy'r cynlluniau'n cynnwys ystyriaeth o newid hinsawdd gan y gallai hafau poethach a sychach, gaeafau gwlypach a chynhesach a lefelau'r môr yn codi effeithio'n sylweddol ar ansawdd amgylcheddol y dalgylchoedd yn ogystal â chynyddu effaith gweithgarwch dynol ar yr amgylchedd dŵr. | Bydd y mater hwn yn cael ei ystyried wrth wneud y Cynllun ei hun yn derfynol.<br><br>Mae newid hinsawdd wedi'i ystyried yn esblygiad y cynllun sylfaenol gan roi'r cynllun ar waith, yn ogystal â pheidio'i roi ar waith. Caiff hyn ei gofnodi yn y Tablau Crynodeb Gwerthuso |
| Undeb Amaethwyr Cymru | Ydy, cytuno bod SEA digonol wedi'i gynnal<br><br>Mynegwyd pryder gan y diffyg cynnal a chadw'r ddyfrffordd yn ystod y blynyddoedd diweddar, gan arwain at leiniau mawr o dir cynhyrchiol yn nofio gan ddŵr am fisoedd. Ym marn yr Undeb nid yw effeithiau cymdeithasol ac economaidd dinistriol llifogydd ar y diwydiant | Mae'r SEA a gynhaliwyd yn seiliedig ar effeithiau amgylcheddol y mesurau arfaethedig yn unig, er bod yr effeithiau ar boblogaeth ac iechyd dynol yn ceisio rhagweld yr effeithiau ar gymdeithas. Mae'r ystyriaethau economaidd (pa mor fforddiadwy) yn ffactor yn y broses o flaenoriaethu'r mesurau |

| | | |
|---|---|---|
| | amaethyddol a chymunedau cefn gwlad yn cael digon o sylw yn yr asesiad hwn. | |
| Coed Cadw | Gellir mesur manteision Ansawdd Aer trwy fethodoleg astudiaeth i-goeden Wrecsam. Felly mae'r posibilrwydd o gynnydd mewn ansawdd aer trefol os yw mwy o awdurdodau lleol yn cynyddu eu gorchudd coed yn sylweddol trwy SUDS a Seilwaith Gwyrdd yn fantais sydd werth ei ymgorffori yn yr asesiad. Byddai SUDS a Seilwaith Gwyrdd hefyd yn cyfrannu at 'wasanaethau puro dŵr a thrin gwastraff' a dylid eu crybwyll.<br><br>Nid yw Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Pryfed Peillio wedi cael ei ystyried. Gall cynnydd yn y targed o blannu coed ar draws tirweddau cefn gwlad a threfol gyfrannu'n sylweddol at gael yr amodau cywir i gefnogi poblogaethau iach o bryfed peillio a byddai'n fantais sylweddol mewn perthynas â chysylltedd cynefinoedd coed/coetir.<br>Dylid cydnabod manteision posibl Seilwaith Gwyrdd ar fioamrywiaeth, hamdden, tirwedd a thwristiaeth, nid yw gwasanaethau puro dŵr a thrin gwastraff wedi'u hystyried yn ddigonol. | Rydym yn cydnabod manteision posibl y mesurau hyn pe byddai awdurdodau lleol yn cynyddu eu gorchudd coed a SUDS yn sylweddol. Cafodd Ansawdd Aer ei dynnu allan o'r asesiad gan i ni ystyried bod effeithiau'r cynllun *hwn* yn ddi-nod ar raddfa strategol.<br><br>Nodwyd. Mae manteision plannu coed wedi'u hystyried yn y cynllun ei hun ac mae cyfleoedd i blannu coed yn cael eu symud ymlaen, lle mae'n ymarferol, trwy ein prosiectau a'n gweithrediadau i liniaru neu wella. |
| Yr Awdurdod Glo | Cytuno bod SEA yn ystyried effeithiau sylweddol. Mae'r asesiad yn ystyried y ddogfen 'Strategaeth Mwynfeydd Metel ar gyfer Cymru' a rhestr flaenoriaeth ar gyfer cyrff dŵr sydd wedi'u heffeithio gan fwynfeydd glo sydd wedi'u gadael. | Ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredu. |
| Confor | Ymwybyddiaeth yn cynnal y cydbwysedd rhwng strwythur economaidd cefn gwlad sy'n bodoli'n barod gan gynnwys coedwigaeth a'r diwydiannau sy'n ddibynnol arno a gwasanaethau sy'n cystadlu e.e. Hamdden a Thwristiaeth ar yr un llaw ac, er enghraifft, Gwerthoedd Esthetig ar y llall. | Nodwyd, ni chymerwyd unrhyw gamau gweithredu. |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | Cytuno bod yr SEA yn ystyried effeithiau sylweddol. Credwn y bydd y mesurau a amlinellwyd, gan gynnwys yr ymchwiliadau Cynllun Rheoli Ased (AMP) a gwelliannau eraill yn cynnig gwelliannau sylweddol ar draws bywyd yr RBMP. Rydym yn ffyddiog y bydd unrhyw gyfleoedd nad ydynt wedi'u nodi yn dod i'r amlwg wrth i'r mesurau lliniaru cyfarwydd gael eu cynnal. | Nodwyd |
| Energy UK | Rydym yn ystyried y dylai rôl heli wrth gefnogi cynhyrchu ynni sy'n thermol effeithiol mewn pwerdai thermol arfordirol a morydol yng Nghymru gael ei ystyried yn fwy amlwg yn Ffig 2.1. Mae gan bwerdai o'r math yma rôl i chwarae yn y llwybr i gynhyrchu ynni di-garbon yn y degawdau sydd i ddod. | Mae Ffig 2.1 yn nodi bod dŵr nad yw ar gyfer ei yfed yn berthnasol yn nhermau poblogaeth ac iechyd dynol, dŵr ac asedau materol. O dan dderbynwyr SEA byddai cyflenwad ynni yn syrthio o dan bob un o'r categorïau hyn |

| | | |
|---|---|---|
| | Rydym yn nodi bod sylwadau'n cael eu gwneud am leihau argaeledd dŵr nad yw ar gyfer ei yfed, a allai effeithio'r broses o oeri'r pwerdy diwydiannol. Fodd bynnag, mae'r ffigur sy'n cyd-fynd (e.e. Gorllewin Cymru Ffig 4.2.) yn awgrymu bod sylwadau o'r fath yn ymwneud â dŵr croyw. Oherwydd, ar gyfer pwerdai thermol arfordirol a morydol nid yw'n ymddangos y byddai ystyriaethau adnoddau dŵr yn berthnasol. | Byddai effeithiau posibl o leihau argaeledd dŵr nad yw ar gyfer ei yfed dim ond yn gymwys i ddŵr croyw sydd yn adnodd mwy cyfyngedig. |
| Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA) Cymru | Nid yw CLA Cymru yn credu bod digon o ystyriaeth wedi'i roi i amrywiaeth o fewn amaethyddiaeth: yn nhermau mathau o ffermydd, daearyddiaeth, a thopograffeg neu fathau o bridd. Unwaith eto, gan fod y rhain yn faterion lleol sydd yn wahanol iawn hyd yn oed o fewn ardaloedd y dalgylch, mae'n hanfodol bod gwybodaeth leol yn cael ei defnyddio fel sail i gamau gweithredu.<br><br>Ein prif bryder yw nad yw'r effaith ariannol i'r diwydiant amaethyddol ac i berchnogion tir preifat wedi cael sylw llawn. Mae camau gweithredu ymyrryd wedi'u hariannu yn cynhyrchu canlyniadau tymor byr. Gyda llai o arian cyhoeddus, nid yw hyn yn ddull cynaliadwy ac mae'n rhaid gwneud mwy o waith i annog newid mewn diwylliant ac i archwilio dewisiadau amgen ymarferol. | Nodwyd. Mae'r RBMP yn ddogfen lefel uchel ond mae'n cael ei chefnogi gan ystyriaethau, data a gwybodaeth leol arwyddocaol. Bydd gwybodaeth leol yn bwysig wrth gyflwyno mesurau, ac mae'n rhaid ei ystyried.<br><br>Ystyriwyd pa mor fforddiadwy ydoedd wrth wneud y cynllun ei hun yn derfynol. |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (SNPA) | Mae'r SEA yn rhoi sylw i effeithiau arwyddocaol, fodd bynnag, dylid cydnabod bod y system cynllun defnydd tir a pholisïau a nodwyd yn y Cynlluniau Datblygu Lleol yn atal/lliniaru ac o bosibl yn cael effaith andwyol ar weithiau sydd angen caniatâd cynllunio - felly, er enghraifft, efallai fod Prif Effeithiau Negyddol anuniongyrchol yr RBMP ar Dreftadaeth Ddiwylliannol, Hamdden a Thwristiaeth (Tabl 4.3 yr Adroddiad Amgylcheddol) wedi cael gormod o sylw. | Nodwyd, ac i'w gynnwys yn y lliniariad ac i'w ystyried yn ystod cyflwyno mesurau. |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (SNPA) | Ystyried gwella mynediad cyhoeddus yn ystod gwaith gwella isadeiledd e.e. adnewyddu neu waith argloddiau newydd drwy ganiatáu mynediad cyhoeddus i'r rhain wedi eu cwblhau (h.y. ar hyd y top). Gellid creu hyn drwy Hawliau Tramwy Cyhoeddus neu ganiataol neu'n well fyth, lle bo'n addas, gyda hawliau uwch fel llwybrau ceffylau neu feiciau.<br><br>Byddai hyn yn ffafriol i nifer o agendâu Llywodraeth Cymru – yr agenda iechyd yn gyffredinol a hyrwyddo cynllun Llwybr Arfordir Cymru. | Nodwyd. Dyma fesur gwella neu liniariad a weithredwn drwy brosiectau cyfalaf Cyfoeth Naturiol Cymru ac fe'i ystyrir yn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd drafft. Bydd gweithredu'r mesurau yn ceisio adnabod cyfleoedd i ddarparu nifer o fuddion fel y rhain. |
| Clwb Genweirio Dyffryn Aman | Dylid ystyried effeithiau Lagŵn Llanw Bae Abertawe. | Ymdrinnir â hyn drwy reoliadau datblygiadau'r dyfodol Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| Cyngor Sir Gwynedd | Mae'r SEA yn rhoi sylw i effeithiau arwyddocaol. Dim sylwadau pellach. | |

| | | |
|---|---|---|
| Dave Nattress | Diffyg cynigion manwl ar gyfer afonydd Cleddau a dyfroedd arfordirol. Angen ymchwil i ddeall yr ecoleg a'r pwysau ar ein hafonydd. | Mae'r RBMP yn ddogfen lefel uchel wedi'i chefnogi gan ystyriaethau lleol, data a gwybodaeth sylweddol. |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (PCNPA) | Mae PCNPA yn nodi'r effaith (negyddol) sylweddol posibl ar dreftadaeth ddiwylliannol ar draws RBD Gorllewin Cymru yn codi o'r mesurau, ond yn cefnogi'r dull arfaethedig i liniariad. Byddai PCNPA yn falch o gynorthwyo gyda hyn. | Ar lefel prosiect, fe ystyrir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol. |
| Ymddiriedolaeth Afonydd Penfro ac Afonydd Cymru | Mae'r SEA yn nodi effeithiau arwyddocaol. Effeithiau posibl ar Dreftadaeth Ddiwylliannol (negyddol mawr) wedi'i orbwysleisio.<br><br>Mae'n anodd deall y farn bod dulliau amaethyddol yn newid i fod yn fwy cynaliadwy pan fo cynnydd mewn diwydiannu'r diwydiant llaeth. Ni fydd effeithiau cadarnhaol ac arwyddocaol ar wasanaethau rheoleiddio erydiad yn digwydd oni bai y bydd newidiadau sylweddol mewn arfer defnydd tir.<br><br>Mae newid cadarnhaol bach ar y gwasanaethau hamdden a thwristiaeth o fewn yr RBD drwy weithredu'r RBMP yn bychanu'r gwelliannau mawr mewn pysgodfeydd a fydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi gwledig. | Ystyriwyd effeithiau yn absenoldeb mesurau i osgoi, lleihau neu liniaru. Cytunwn y bydd yn bosibl lleihau effeithiau ar lefel prosiect.<br><br>Nodwyd.<br><br>Bydd monitro a gynigiwyd yn yr SoP yn arddangos unrhyw gynnydd mewn nifer ymwelwyr a chymryd rhan mewn genweirio. |
| Planed | Cytuno bod yr SEA yn nodi effeithiau arwyddocaol.<br><br>Credwn y gellid cael mwy o integreiddio rhwng 'Gweithlu maes' Swyddogion Datblygiadau Tir Comin (18 ohonynt ar draws Cymru) a staff Cyswllt Ffermio sy'n gweithio gyda'r gymuned ffermio i hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol drwy Cyswllt Ffermio a hefyd buddion a bod yn rhan o Glastir. | Mater i'w ystyried wrth ddod â'r Cynllun i'w derfyn. |
| Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir | Cefnogi dull safonol o asesu effeithiau arwyddocaol i'r SEA rheng RBD ond ddim yn siŵr os yw hyn wedi digwydd.<br><br>Rydym yn anghytuno â rhai datganiadau a wnaed ynglŷn â chynhyrchiant amaethyddol mewn rhai RBD. Efallai bod effeithiau negyddol ar ddulliau ffermio cyfredol, ond nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod effaith negyddol tymor hir ar gynhyrchiant amaethyddol. Efallai bydd yn hwyluso symud at ddulliau ffermio amgen, yn aml yn cynnwys cynhyrchion gwerth uchel. Dylai'r asesiad edrych ar a ddylid amddiffyn dulliau ffermio cyfredol neu symud i ddulliau mwy addas, ond yn dal yn hyfyw yn economaidd. | Defnyddiwyd yr un fethodoleg i asesu effeithiau arwyddocaol yn yr RBD gwahanol. Mae gwahaniaeth maint RBD Dyfrdwy o'i gymharu â RBD Gorllewin Cymru yn golygu y gellid cynnwys mwy o fanylion yn yr un Dyfrdwy. Mae arwyddocâd yn cael ei ystyried mewn perthynas ag ardal y cynllun.<br><br>Nodwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | Rydym yn cydnabod bod canllawiau SEA yn argymell ystyried ffactorau arwyddocaol yn unig. Ond, credwn fod angen asesiad gwasanaethau ecosystem llawn cyn canolbwyntio ar newidiadau arwyddocaol ac nid ydym yn argyhoeddedig bod hyn wedi digwydd. Rydym eisiau gwybod i ba raddau wnaeth yr asesiad gwasanaethau ecosystem hysbysu ffactorau'r SEA. Nid oes gennym ddealltwriaeth lawn o'r broses a gymerwyd i gael y canlyniadau a gyflwynir yn yr SEA i benderfynu a yw'r effeithiau arwyddocaol a nodwyd yn rhai cywir.<br><br>Dan y pennawd "poblogaeth a iechyd pobl" yr SEA, ni ystyrir buddion lles amgylchedd iachach, na gwella iechyd a diogelwch o wella ansawdd dŵr a lleihau erydiad pridd.<br><br>Dylai gweithredu ar rywogaethau estron goresgynnol gael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth a thirwedd frodorol. Nodir hyn yn yr SEA.<br><br>Dylai darparu ystyried sut gall mesurau optimeiddio buddion amrywiol. Rhaid i fesurau lliniaru ystyried colli buddion wrth liniaru yn ogystal ag effaith y lliniariad ar yr effaith a dargedwyd. Neu wrth liniaru ar gyfer un peth rydym yn colli buddion eraill. Dylid ystyried defnyddio deunyddiau naturiol a rhywogaethau brodorol wrth weithredu er mwyn gwella cyfleoedd ar gyfer bywyd gwyllt a bioamrywiaeth. | Fe wnaethom werthusiad manwl o effeithiau potensial y mesurau ar draws yr holl wasanaethau ecosystem ac mae hyn wedi'i ddogfennu yn y Tablau Crynodeb Gwerthuso (AST). Mae crynodeb o'r darganfyddiadau hyn yn yr Adroddiad Amgylcheddol ond gellir cael copïau o'r AST pan wneir cais.<br><br>Gwnaethom yr asesiad drwy ddefnyddio canllawiau Llywodraeth Cymru "Using the Ecosystem Approach – A Framework for Natural Resources Wales" a gyda'n profiad fel ymarferwyr SEA ac EIA, mewn ymgynghoriad ag Ymgynghorai Statudol.<br><br>Gellir darparu AST os gofynnir amdanynt.<br><br>Cydnabuwyd hwn yn yr AST ond efallai na fydd yn yr Adroddiad Amgylcheddol am nad oedd yn cael ei ystyried yn arwyddocaol.<br><br>.<br><br>Nodwyd ac fe'i ystyrir yn y lliniariad. |
| Brian Jones | Cytuno bod yr SEA yn nodi effeithiau arwyddocaol. Er yn pryderu am y farn optimistaidd a gynigir am wella cynaliadwyedd y diwydiant amaethyddol.<br><br>Dylid cydnabod bod clybiau genweirio a physgodfeydd eraill yn gwneud ymdrechion i wella cynefinoedd a gwella cyfleusterau genweirio, cadwraeth pysgod 'dal a rhyddhau'. Mae'n ddyletswydd arnom i gyd wneud beth y gallwn. Mae'n hanfodol felly bod yr holl ffynonellau cyllido pysgodfeydd ar gael i'w cyrchu, er enghraifft, cefnogi'r gwaith a'r arian sydd ar gael drwy Ymddiriedolaethau Afon a chlybiau genweirio ac ati i gefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru gyda'r gwaith enfawr o wella bioamrywiaeth afonol. | Nodwyd.<br><br>Mater i'w ystyried wrth ddod â'r Cynllun i'w derfyn. |
| Cymdeithas Genweirio'r Tywysog Albert | Pryderon ynghylch datblygiadau gan Gold Mines of Wales/Stellar Resources o ddiddordeb newydd ym mwyngloddiau Clogau a Gwynfynydd. | Ymdrinnir â hyn drwy reoliadau datblygiadau'r dyfodol Cyfoeth Naturiol Cymru. |
| NFU Cymru | Yn wahanol i ddiwydiannau rheoledig, mae llygredd amaethyddol yn digwydd am wahanol resymau ar ffermydd gwahanol ac ni ellir ei reoli drwy fesurau cyffredin neu system archwilio syml. Mae angen cyngor, | Mater i'w ystyried wrth ddod â'r Cynllun i'w derfyn.<br><br>Ystyriwyd hefyd yn lliniariad/gwella SOP. |

| | | |
|---|---|---|
| | canllawiau a chyngor ffermio da i gyflenwi newid agwedd. Mae angen cynghorwyr da i drosglwyddo blaenoriaethau'r WFD i weithredoedd ar y fferm. Yn y gorffennol mae cynlluniau dalgylchoedd wedi bod yn effeithiol iawn a dylid eu cynyddu ymhellach i uchafu effaith.<br><br>Mewn nifer o ffyrdd mae'r cynllun yn cynnig darlun rhy negyddol o statws uchel y mwyafrif o'r amgylcheddau dŵr yng Nghymru a gallai gyflwyno darlun anwir i'r cyhoedd ac i'r Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r adran ar weithredoedd ymarferol y gallwn eu cymryd ar dudalennau 53 a 54. | Mater i'w ystyried wrth ddod â'r Cynllun i'w derfyn. |
| Associated British Ports | Gan nad yw'r mesurau wedi'u diffinio'n ddigonol, nid yw'n bosibl ar y cam hwn gwneud asesiad trylwyr. | Gwnaethpwyd yr asesiad ar lefel strategol y cynllun. Gwneir asesiad (EIA) mwy manwl ar lefel prosiect lle'n berthnasol. |
| Bangor Mussel Producers Cyf | Mae diffyg ar lefel bennawd am yr amgylchedd morol mawr, llawn bioamrywiaeth a hynod gynhyrchiol sy'n gorwedd o fewn cwmpas RBD Gorllewin Cymru - er bod y testun dilynol yn gwella hyn i raddau. | Mater i'w ystyried wrth ddod â'r Cynllun i'w derfyn. |
| Cymdeithas Adar Gwyllt Sir Benfro | Ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid, yn arbennig y rhai gaiff eu heffeithio gan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ac Adar os na lwyddir i ymdrin â matiau macroalgaidd mewn ardaloedd rhynglanw. | Nodwyd. Ymgynghorir â rhanddeiliaid wrth gyflwyno prosiectau. |
| Cyngor Sir Penfro | Mae achos i bryderu am effeithiau negyddol mawr RBD Gorllewin Cymru ar dreftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Croesewir lliniaru drwy asesiad treftadaeth ddiwylliannol ar unrhyw waith ymwthiol a dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ymgysylltu â Chyngor Sir Penfro ac asiantau statudol perthnasol eraill.<br><br>Ni chynhwysir effeithiau'r RBMP ar ddŵr yfed yn yr Adroddiad Amgylcheddol, ond fe asesir dŵr ar gyfer defnyddiau eraill, puro dŵr a thrin gwastraff a rheoliadau dŵr.<br><br>Byddai Cyngor Sir Penfro wedi disgwyl mwy o fanylder ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr RBMP, gan fod opsiynau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad amgylcheddol hwn ac adroddiadau eraill. Nodir yn yr Adroddiad Amgylcheddol fod yr asesiad wedi'i wneud mewn dull iterus.<br><br>Derbynnir bod ymgynghori â'r cyhoedd ar HRA yn ddewisol, fodd bynnag o gofio bod yr HRA yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi law yn llaw â'r cynlluniau wedi'u diweddaru terfynol, ni fydd cyfleoedd ar gyfer ymgynghori pellach i randdeiliaid fynegi barn ar yr HRA, pe byddai CNC wedi dewis derbyn sylwadau'r ymgynghoriad. | Nodwyd. Ar lefel prosiect, fe ystyrir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol.<br><br>Ni chydnabuwyd hwn yn yr AST ond efallai na fydd yn yr Adroddiad Amgylcheddol am nad oedd yn cael ei ystyried yn arwyddocaol.<br><br>Cytuno y dylid gwneud HRA ochr yn ochr â chynllunio'r cynllun. Roedd adnoddau cyfyngedig a phwysau ar raglen ddim yn caniatáu hyn. Fodd bynnag, mae HRA yn digwydd ochr yn ochr ac mae'n dylanwadu ar baratoad y cynllun terfynol a bydd yn ei le cyn terfynu a chymeradwyo'r cynllun. Byddwn yn ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (SAT) ac NE ar HRA drafft cyn terfynu a chymeradwyo'r cynllun. |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r mapiau crynodeb yn yr adroddiad yn dangos dosbarthiad daearyddol yr effeithiau potensial ar y gwasanaethau ecosystem perthnasol; fodd bynnag byddai mwy o fanylder ar sut y dosbarthwyd yr asesiadau i bob adran ddaearyddol wedi bod yn fuddiol o fewn y ddogfen.<br><br>Mae yna restr gynhwysfawr o gynlluniau, polisïau a rhaglenni yn Atodiad A o'r Adroddiad Amgylcheddol, er mae yna rai ar goll ar lefel ranbarthol ac awdurdod lleol fel y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, cynlluniau twristiaeth, cynlluniau gwastraff, Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth (amgylchedd hanesyddol) perthnasol a llawer mwy. | Nodwyd. Gellir darparu AST os gofynnir amdanynt.<br><br>Gwnaethpwyd yr arolwg ar lefel y cynllun ei hun, gan gadw ystyriaeth ar lefel strategol. Bydd mwy o gynlluniau yn rhan o'r ystyriaeth o gyflwyno'r mesurau ar lefel prosiect. |
| Cymdeithas Genweirio Sir Benfro | Mae'r Adroddiad Amgylcheddol yn nodi bod ffermio yn newid i fod yn fwy cynaliadwy, ond ym Mhenfro a Sir Gâr mae cynnydd mewn dwysedd stoc a diwydiannu yn y diwydiant llaeth. | Nodwyd |
| Cyfarwyddeb Cefn Gwlad a Thwristiaeth CBC Pen-y-bont ar Ogwr | Cytuno bod yr SEA yn nodi effeithiau arwyddocaol.<br><br>Un mater tu allan yr RBMP yw hinsawdd economaidd. Felly, mae pryder na fydd mentrau'n cael eu cyflawni, yn arbennig ar lefel leol os bydd grwpiau cymunedol yn colli cefnogaeth/adnoddau.<br><br>Hyrwyddo cysylltiadau gyda gwasanaethau eraill nad oeddynt wedi ymgysylltu â'r amgylchedd yn y gorffenno e.e. iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a busnesau. Rôl bwysig gan CNC fan hyn fel ymgynghorydd i Lywodraeth Cymru. | Mater i'w ystyried wrth ddod â'r Cynllun i'w derfyn. |
| Grŵp Perygl Llifogydd ac Isadeiledd CBC Conwy | Dim sylwadau arbennig ar yr SEA – Pwrpas y cynllun yw gwella ansawdd amgylcheddol ac mae'r SEA wedi ymdrin ag unrhyw bryderon. | |
| Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru | Dylid bod wedi ystyried Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol (h.y. safleoedd bywyd gwyllt lleol dynodedig/Safleoedd Pwysig i Gadwraeth Natur) fel rhan o'r broses SEA. Mae gan safleoedd bywyd gwyllt lleol bwysigrwydd strategol i'r holl RBD. Gallant chwarae rhan ganolog wrth ddarparu nifer o ymrwymiadau Cymru fel atal colli bioamrywiaeth erbyn 2020. Gall gwella bywyd gwyllt, creu cynefinoedd a rheoli ac ailgyflwyno rhywogaethau fel yr afanc helpu i reoli cyrff dŵr mewn dull cynaliadwy. | Mae'r RBMP yn ddogfen lefel uchel wedi'i chefnogi gan ystyriaethau lleol, data a gwybodaeth sylweddol. Bydd safleoedd lleol yn bwysig i gyflwyno'r mesurau a rhaid eu hystyried.<br><br>Bydd gweithredu'r mesurau yn ceisio adnabod cyfleoedd i ddarparu nifer o fuddion fel y rhain. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Yn croesawu ac yn cefnogi proses RBMP ac ymrwymiad i SEA<br><br>Dylid ailadrodd yr HRA wrth i'r cynlluniau ddatblygu. Amhriodol i gymeradwyo'r RBMP neu i'w wneud yn derfynol nes i'r holl brosesau asesu priodol gael eu cyflawni. | Cytuno y dylai'r HRA gael ei gynnal ochr yn ochr â'r paratoadau ar gyfer y cynllun hwn. Roedd adnoddau cyfyngedig a phwysau yn golygu nad oedd hyn yn bosibl. Mae'r HRA fodd bynnag, yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r cynllun terfynol ac yn dylanwadu arno a bydd yn ei le cyn |

| | | |
|---|---|---|
| | | gwneud y cynllun yn derfynol a'i gymeradwyo. Byddwn yn ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru (SAT) ar y drafft o'r HRA cyn gwneud y cynllun yn derfynol a'i gymeradwyo. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Pryder yn ymwneud â'r defnydd o destunau gwasanaethau ecosystemau'n cael eu defnyddio yn lle testunau a bennwyd gan Gyfarwyddeb SEA. E.e. Mae asedau materol yn rhoi sylw i fwy na "bwyd", "dŵr nad yw ar gyfer ei yfed" a "hamdden a thwristiaeth'. | Nodwyd. Bwydo i'r gwersi a ddysgwyd. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Nid yw'n ymddangos bod yr adran Hamdden a Thwristiaeth wedi ystyried Safonau'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi. Gallai ansawdd dŵr gael ei effeithio gan rai o'r camau gweithredu arfaethedig. Dylid ystyried amseru'r gwaith i osgoi'r tymor dŵr ymdrochi | Byddai hwn wedi'i ystyried o dan ansawdd dŵr, ond efallai na gafodd ei ystyried yn glir. Mae hwn yn gydberthynas a byddwn yn ystyried sut y gallwn arddangos yn glir bod yr SEA wedi ei ystyried trwy'r gwersi a ddysgwyd. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Mae tensiwn posibl rhwng mesurau i alluogi hynt pysgod ac effeithiolrwydd a phriodoldeb mesurau llifogydd. Efallai y bydd angen ystyried hyn yn yr EIA ac HRA ar lefel prosiect. | Wedi'i gynnwys yn y lliniariad yn SOP. Bydd EIA ar lefel prosiect yn cael ei gynnal. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Mae'r cynllun drafft yn nodi y byddwn yn cynnig rhaglen wedi'i blaenoriaethau o fesurau a fydd yn helpu safleoedd dynodedig Ewropeaidd i fodloni amcanion cadwraeth. Mae'n aneglur os yw hyn wedi'i gynnig yn y cynllun drafft neu y bydd yn cael ei gynnig yn y cynllun terfynol. Os mai yn y cynllun terfynol, yna mae pryder na fydd SAT yn cael cyfle i wneud sylwadau. | Mae swyddogion safleoedd gwarchodedig wedi cael eu cynnwys yn yr ymarfer blaenoriaethu. Bydd yr SAE yn cael cyfle i roi sylwadau trwy'r ymgynghoriad HRA. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Effeithiau anuniongyrchol a chronnus. Nid yw'r adolygiad o gynlluniau eraill yn cynnwys asesiad o effeithiau cronnus. | Ystyriwyd effeithiau anuniongyrchol a chronnus yn yr ASTau ac yn yr ER. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Tabl 5.1 yn monitro effeithiau'r cynllun. Byddai'n ddefnyddiol pe gallai hwn restru'r effeithiau sylweddol posibl y mae monitro'n cael ei gynnig ar eu cyfer. | Rhoddwyd sylw yn yr SOP |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Cyfeirir at yr effeithiau posibl ar nodweddion o ddiddordeb hanesyddol, archeolegol ac asedau adeiladau hanesyddol, ond ni wneir unrhyw gyfeiriad at effeithiau posibl ar gyfanrwydd neu gydrannau o barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig a thirweddau sydd wedi eu cofrestru ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru. Dylid ystyried y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru yn yr Adolygiad PPP. | Mae effeithiau ar dreftadaeth ddiwylliannol wedi'u hystyried ar raddfa strategol, ar sail rhagofalu. Nodwyd lliniariad monitro yn yr SOP. |

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Cambria House
29 Newport Road
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun-Gwener, 8am - 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cediwr pob hawl. Gellir atgynhyrchu’r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llawn gan Cyfoeth Naturiol Cymru